# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Awst 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Bob Parry OBE (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, D R Hughes, Vaughan Hughes, H E Jones, Jeffrey M.Evans, J A Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Victor Hughes a Carwyn Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r hyn a ganlyn :-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**3 APWYNTIO STAFF - PRIF WEITHREDWR CYNORTHWYOL (LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A TRAWSNEWID MEWNOL)**

Rhoddwyd 2 ymgeisydd ymlaen am gyfweliad yn dilyn adborth o'r broses benodi.

Darparodd yr ymgeiswyr gyflwyniad, ac fe wnaethant ateb cwestiynau ar y cyflwyniad, ac wedyn ateb set o gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

Yn dilyn y cyfweliad **PENDERFYNWYD penodi Dr. Caroline Turner i'r swydd uchod o ddyddiad i'w gytuno.**

**4 APWYNTIO STAFF - PRIF WEITHREDWR CYNORTHWYOL (PARTNERIAETHAU A TRAWSNEWID ALLANOL)**

Rhoddwyd 2 ymgeisydd ymlaen am gyfweliad yn dilyn adborth o’r broses benodi.

Darparodd yr ymgeiswyr gyflwyniad, ac fe wnaethant ateb cwestiynau ar y cyflwyniad, ac wedyn ateb set o gwestiynau gan aelodau’r Pwyllgor.

Yn dilyn y cyfweliad, **PENDERFYNWYD penodi Mrs. Annwen Morgan i’r swydd uchod o ddyddiad i’w gytuno.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**